


2018

Polisi Preifatrwydd

PARTNERIAETH AWYR-AGORED

Profiad • Mwynhau • Llwyddo



Experience • Enjoy • Achieve

OUTDOOR PARTNERSHIP

Tracey Evans

Prif Swyddog

Gweithredol

AMDANOM NI

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn elusen gofrestrdig (rhif cofrestru 1149280). Rydym ni'n gwmni cyfyngedig (rhif 0770 5219) a'n cyfeiriad cofrestredig ydy Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, Capel Curig, Conwy, LL24 0ET.

Rydym ni wedi creu polisi preifatrwydd er mwyn egluro sut rydym ni'n defnyddio ac yn diogelu unrhyw wybodaeth gaiff ei chasglu gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Rydym ni'n ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a'ch preifatrwydd. Mae'r Polisi Preifatrwydd hwn yn disgrifio sut yn union rydym ni'n casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Mae gennych chi hawliau cyfreithiol i reoli beth rydym ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, gofyn inni gywiro neu ddiweddarau gwybodaeth anghywir, gwrthwynebu neu ofyn ein bod yn cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau a gwrthwynebu marchnata uniongyrchol.

Efallai y byddwn ni'n diweddarau'r Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd felly cofiwch edrych arno bob hyn a hyn. Byddwn ni'n rhoi gwybod ichi am unrhyw newidiadau arwyddocaol trwy roi hysbysiad ar ein gwefan.

Trwy gysylltu â ni, defnyddio ein gwasanaethau neu ymweld â'n gwefan rydych chi'n cytuno bod y Polisi hwn yn eich rhwymo.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r Polisi Preifatrwydd hwn, cysylltwch gyda ni ar info@outdoorpartnership.co.uk

EICH PREIFATRWYDD

Mae gan bawb hawliau ynglŷn â sut caiff eu data personol ei drin. Yn ystod ein gweithgareddau, byddwn ni'n casglu, storio a phrosesu data personol am ein cwsmeriaid, cyflenwyr a thrydydd barti eraill. Rydym ni'n cydnabod y bydd defnydd cywir a chyfreithlon o'r data hwn yn cynnal hyder yn y sefydliad ac yn sail ar gyfer gweithredoedd busnes llwyddiannus.

Mae eich data personol, gaiff ei gadw ar bapur neu ar gyfrifiadur neu gyfrwng arall, yn amodol ar ddiogelwch cyfreithiol penodol gaiff eu rhestru yn rheolau'r GDPR ac yn gyfystyr â rheoliadau'r UE.

Mae'r polisi hwn ac unrhyw ddogfennau eraill gaiff eu cyfeirio atyn nhw yn gosod y sail y byddwn ni'n prosesu unrhyw ddata personol byddwn ni'n ei gasglu gennych neu caiff ei roi inni gennych chi neu ffynonellau eraill. Mae'r polisi hwn yn gosod rheolau ar ddiogelwch data a'r amodau cyfreithiol y mae'n rhai eu bodloni wrth gasglu, trin, prosesu, trosglwyddo a storio data personol.

SUT YDYM NI'N CASGLU GWYBODAETH BERSONOL?

Rydym ni'n casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi pan fyddwch chi'n rhyngweithio gyda ni, er enghraifft, pan fyddwch chi'n cofrestru i fod yn wirfoddolwr, cadw lle ar gwrs neu weithgaredd, neu yn dod yn aelod, neu pan fyddwch chi'n cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr.

PA WYBODAETH BERSONOL YDYM NI'N EI CHASGLU?

Pan fyddwch chi'n mewngofnodi i'r adran Gwirfoddolwyr ar y wefan byddwn ni'n gofyn ichi am yr wybodaeth bersonol ganlynol; enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn.

Os hoffech chi gadw lle ar unrhyw un o'r cyrsiau, byddwn ni'n gofyn ichi am yr wybodaeth bersonol ganlynol: enw cyswllt a rhif ffôn mewn argyfwng, cyfeiriad bilio a chyfeiriad danfon, gwybodaeth cydraddoldeb, profiad a chyflyrau iechyd.

Fe allwch chi ddewis rhannu'r data canlynol o gategori arbennig gyda ni er mwyn ein galluogi ni i deilwra sut byddwn ni'n cyfathrebu, monitro amrywiaeth ymgeiswyr ac adrodd yn ôl i'n prif rhanddeiliaid a phartneriaid nawdd ar ein rhaglenni.

Mae modd i chi, yr ymgeisydd, ei dynnu oddi yno ar unrhyw adeg: rhyw, tarddiad ethnig, gwefan busnes/personol, prif rif ffôn, rhif ffôn arall, siaradwr Cymraeg, anabl, di-waith, oedran, gofynion arbennig.

Dydyn ni ddim yn anfon e-byst di-darged, diofyn yn annisgwyl. Fe allwch chi ddewis peidio â derbyn ein he-byst marchnata ar unrhyw adeg drwy glicio ar y botwm 'dad-danysgrifio' mewn unrhyw e-bost o'r fath, neu drwy gysylltu gyda ni'n uniongyrchol.

Caiff yr wybodaeth ei chasglu drwy'r ffurflen ar ein gwefan a'i storio mewn cronfa ddata sydd ddim yn gyhoeddus ar ein gweinyddwr gwe (cyfrifiadur), sydd yn y DU ac wedi'i diogelu gan gyfrinair

Caiff cyfeiriadau e-byst eu cadw yn ein cronfa ddata ac ar restr e-byst ar wahân i'r rhai rydym ni'n anfon cylchlythyr trwy e-bost atyn nhw.

Caiff y rhestr e-byst ei defnyddio er mwyn anfon gwybodaeth am ein rhaglenni gweithgareddau, cyrsiau a digwyddiadau.

Tydy'r Bartneriaeth Awyr Agored ddim yn datgelu eich gwybodaeth cofrestru i unrhyw drydydd barti oni bai eich bod chi wedi cadw lle ar gwrs gyda ni. Trwy gadw lle ar gwrs gyda ni, mae'n rhaid ichi gytuno i'n Amodau a Thelerau. Mae hyn yn rhoi caniatâd inni rannu gwybodaeth amdanoch chi sy'n gysylltiedig â'r cwrs rydych chi wedi cadw lle arno gydag ein darparwyr cwrs a staff Y Bartneriaeth Awyr Agored er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu'r profiad gwasanaeth cwsmer gorau ichi.

Efallai y byddwn ni hefyd yn casglu gwybodaeth am sut caiff ein gwefan ei defnyddio ac yn olrhain pa dudalennau mae ein defnyddwyr yn mynd arnyn nhw. Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro a gwella ein gwefan. Lle bo'n bosibl, rydym ni'n defnyddio data dienw neu gyfunol sydd ddim yn adnabod unigolion. Mae gwybodaeth bellach am gwcis isod.

Rydym ni'n casglu'r data hwn fel bod modd inni roi'r manylion diweddaraf ichi am wybodaeth a chynnyrch rydych chi wedi gofyn amdany'n nhw, neu efallai â diddordeb ynddyn nhw. Hefyd, er mwyn gofyn am fwy o gefnogaeth, yn y dull rydych chi wedi'i ddewis; i redeg ein digwyddiadau; a chyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol o ran adrodd am elfennau ariannol a Rhodd Cymorth.

Byddwn ni'n cadw eich data dim ond am ba mor hir sydd ei angen. Os ydych chi wedi rhoi yn garedig inni, mae gofyniad arnom ni i gadw'r data hwn am saith

mlynedd. Os nad ydych chi wedi rhoi, byddwn ni'n cadw eich data am dair blynedd yn unig.

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn ni'n gofyn am eich caniatâd i gysylltu gyda chi i ddefnyddio eich gwybodaeth. Os byddwn ni, yna byddwn ni'n gofyn am eich caniatâd ar ffurf bendant yn unig, hynny ydy, rhoi tic yn y bocs er mwyn rhoi eich caniatâd.

GWIRFODDOLWYR

Os byddwch chi'n gwirfoddoli gyda ni, neu yn ymholi am ein cyfleoedd gwirfoddoli, gan amlaf byddwn ni'n casglu eich enw, manylion cyswllt, manylion cyswllt mewn argyfwng, manylion banc, dewisiadau cyswllt, ethnigrwydd, rhyw, pryd ydych chi ar gael i wirfoddoli, anabledd (gan gynnwys unrhyw gyflyrau corfforol neu feddyliol) ac euogfarnau troseddol (DBS).

Rydym ni'n casglu'r data hwn fel bod modd inni gysylltu gyda chi am gyfleoedd gwirfoddoli sy'n codi; er mwyn inni sicrhau diogelwch ein gwirfoddolwyr, staff a chwsmeriaid; gallu talu costau; cynnal ein rhaglen wobrwyo; a'n helpu ni fesur yn ddienw pwy sy'n cymryd rhan ac sydd â mynediad ar draws ein rhaglenni gwirfoddoli.

Byddwn ni'n cadw'r data hwn am ddwy flynedd ar ôl ichi roi'r gorau i wirfoddoli gyda ni.

RHANNU STRAEON

Mae rhai o'n cefnogwyr yn garedig iawn yn rhannu straeon gyda ni am eu profiadau er mwyn ein helpu ni gyda'n hymgyrch a'n gwaith.

Byddwn ni'n cofnodi manylion y stori a'r manylion cyswllt er mwyn ein galluogi ni i gael caniatâd diweddar i ddefnyddio'r stori.

Byddwn ni'n cadw'r data hwn am dair blynedd ar ôl ichi ei roi inni ac yn cysylltu gyda chi bob tro byddwn ni'n dymuno ei ddefnyddio.

FFOTOGRAFFIAETH

Mae ein cefnogwyr, gwirfoddolwyr a chwsmeriaid yn garedig iawn yn gadael inni ddefnyddio lluniau ohonyn nhw er mwyn helpu gyda'n gwaith. Trwy lofnodi'r ffurflen ganiatâd rydych chi'n cytuno i ganiatáu'r Bartneriaeth Awyr Agored i ddefnyddio unrhyw luniau at ddibenion marchnata a chyhoeddusrwydd. Allwch chi ddewis optio allan drwy beidio â rhoi tic yn y bocs sy'n caniatáu lluniau ar y ffurflenni caniatâd/archebu a chadw.

Rydym ni'n storio'r lluniau hyn mewn lle diogel a byddwn ni'n eu defnyddio dim ond gyda chaniatâd y sawl sydd yn y llun.

Rydym ni'n cadw'r lluniau hyn am bum mlynedd ar ôl eu derbyn, oni bai eich bod yn dweud fel arall.

EICH MANYLION CYFRIF AR Y WEFAN A GWYBODAETH COFRESTRU

Wrth ichi archebu a chadw byddwn ni'n gofyn eich bod yn mewngofnodi trwy ein system mewngofnodi i Wirfoddolwyr. Mae'r holl wybodaeth byddwn ni'n ei chasglu yn ystod y broses cofrestru yn berthnasol wrth inni brosesu eich archeb ac i'n galluogi ni i gyfathrebu gyda chi ynglŷn â'ch archeb. Unwaith byddwch chi wedi gosod eich cyfrif fe allwch chi reoli eich gwybodaeth bersonol a'ch dewisiadau cyfathrebu. Rydym ni'n gofyn eich bod chi'n diweddarau'r wybodaeth hon fel bod modd inni barhau i'ch darparu chi gyda'r gwasanaeth gorau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei rhannu gydag unrhyw drydydd barti sydd ddim yn berthnasol i'ch cwrs. Gall pob cwsmer sy'n cofrestru cyfrif gyda ni ddewis derbyn diweddariadau gan Y Bartneriaeth Awyr Agored a dewis optio allan ar unrhyw adeg drwy newid eu dewisiadau cyfathrebu ar dudalen Fy Mhroffil eu cyfrif. Caiff yr holl fanylion eu storio ar gronfa ddata diogel sydd ddim ar gael i'r cyhoedd ar ein gweinyddwr gwe (cyfrifiadur), sydd yn y DU.

YMCHWIL

Mae rhan o'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil. Os byddwch chi'n cytuno i gymryd rhan, byddwn ni'n cofnodi ymatebion i gwestiynau byddwch chi'n eu rhoi inni, a'ch manylion personol.

Caiff y data hwn ei ddefnyddio er mwyn bodloni amcanion ein hymchwil ac efallai ei rannu ar gyfer prosiectau perthnasol. Bydd eich data yn parhau i fod yn ddiennw oni bai eich bod yn rhoi caniatâd i'ch manylion gael eu datgelu.

Byddwn ni'n cadw'r data byddwn ni'n ei gasglu am bum mlynedd.

AM BA MOR HIR BYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH BERSONOL

Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sydd ei angen er mwyn darparu gwasanaethau ichi ac yn unol â'n diddordebau cyfreithlon sydd wedi'u hamlinellu uchod. Oni bai eich bod chi'n gofyn inni beidio, byddwn ni'n adolygu ac o bosibl yn dileu eich gwybodaeth bersonol mewn achos lle bydd cyfrif wedi'i greu ar y system ond heb ei ddefnyddio ar ôl blwyddyn.

Mae angen inni gadw rhai gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr am gyfnod hirach er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006, sy'n gofyn inni gadw cofnodion ariannol ac yn unol â rheoliadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) / Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

Mae gennym ni bolisi cadw data sy'n nodi cyfnodau cadw data ac adolygu'r holl wybodaeth sydd gennym ni. Mae hwn yn nodi cyfnodau cadw gwahanol ac fe allwch chi ofyn am gopi drwy gysylltu gyda ni ar info@outdoorpartnership.co.uk

DOLENNI CYSWLLT

O bryd i'w gilydd, efallai bydd gwefan Y Bartneriaeth Awyr Agored yn cynnwys dolenni cyswllt at wefannau allanol eraill. Tydy'r Bartneriaeth Awyr Agored ddim yn gyfrifol am arferion preifatrwydd neu gynnwys gwefannau o'r fath.

DATGELU

Ni fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw fudiadau trydydd barti sydd ddim yn berthnasol i'ch cwrs.

YSTADEGAU'R WEFAN

Caiff cyfeiriadau IP ymwelwyr eu cofnodi fel rhan o waith casglu ystadegau dyddiol y wefan. Mae hwn yn rhywbeth cyffredin ar lawer o wefannau. Caiff ei ddefnyddio dim ond er mwyn cofnodi ystadegau yn gywir.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, pryder neu ymholiad ynglŷn â Datganiad Preifatrwydd Y Bartneriaeth Awyr Agored, yna cysylltwch gyda ni drwy'r post, dros y ffôn neu drwy e-bost.

SAIL GYFREITHLON DROS BROESU EICH GWYBODAETH BERSONOL

O dan Gymal 6 o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae ein sail gyfreithlon dros broesu a chadw gwybodaeth bersonol yn 'ddiddordeb cyfreithlon' gan ei bod yn angenrheidiol i'r Bartneriaeth Awyr Agored ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn darparu ein gwasanaethau ichi.

HYSBYSIAD PROESU TEG

Mae ein Hysbysiad Prosesu Teg yn sôn am y math o wybodaeth rydym ni'n ei defnyddio, ar gyfer beth rydym ni'n defnyddio eich Data Personol, sut rydym ni'n prosesu a diogelu eich gwybodaeth.

(Gwelwch ffigur 1)

FFIGWR 1: Cofrestr Gwybodaeth Asedau - Y Bartneriaeth Awyr Agored - GENERIG

Categori Gwybodaeth / Swyddogaeth Busnes	At ba ddiben caiff ei brosesu? Pa fath o ddata?	Sail gyfreithlon dros brosesu	Gwybodaeth am bwy?	Lle caiff ei storio? Diogelwch?	A gaiff y data ei rannu? Gyda phwy? Sut?	Am ba mor hir caiff y data ei gadw
Aelodaeth: Rhanddeiliad	Cyfeiriad e-bost	Mae gennym ni eich caniatâd	Person cyswllt	Outlook wedi'i ddiogelu gyda chyfrinair	Gyda rhanddeiliaid eraill trwy e-bost grŵp	1 flwyddyn
Aelodaeth: Aelodau unigol	Manylion personol	Fel yr uchod	Aelod unigol	Diogelu gyda chyfrinair ar-lein	Na	1 flwyddyn
Aelodaeth: Anrhydeddus	Manylion personol	Fel yr uchod	Unigolyn	Fel yr uchod	Na	Tan na fydd aelodau mwyach
Cyflenwyr	Gwybodaeth anfonebau	Diddordeb i'r cyhoedd	Busnesau a masnachwyr unigol	Mewn cwpwrdd ffeilio dan glo	Na	Tan na chaiff ei gyflenwi mwyach
Bwrdd Ymddiriedolwyr	Yn unol â Thy'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau	Mae gennym ni eich caniatâd / diddordeb i'r cyhoedd	Ymddiriedolwyr ac aelodau cyfetholedig	Mewn cwpwrdd dan glo mewn	Ty'r Cwmnïau, y Comisiwn Elusennau, partneriaid nawdd	Tan nad ydynt yn Ymddiriedolwr mwyach

Polisi Preifatrwydd | 2018

				swyddfa dan glo	trwy adroddiadau a cheisiadau	
Gweithwyr	AD - Ffeiliau staff gan gynnwys prawf adnabod, cymwysterau a DBS, manylion banc, rhif YG, manylion cyswllt mewn argyfwng	Mae gennym ni eich caniatâd *Angenrheidiol	Aelodau unigol o staff	Cwpwrdd dan glo mewn swyddfa dan glo.	Cyflogres	Tan nad ydynt yn weithiwr mwyach

*Lle mae ein gwaith o brosesu eich data personol yn angenrheidiol ar gyfer ein diddordeb cyfreithlon dros ddiddordebau trydydd barti a heb eu diystyru gan eich hawliau preifatrwydd.

Cofrestr Gwybodaeth Asedau - Y Bartneriaeth Awyr Agored - RHAGLEN ANTUR I BAWB						
Categori Gwybodaeth / Swyddogaeth Busnes	At ba ddiben caiff ei brosesu? Pa fath o ddata?	Sail gyfreithlon dros brosesu	Gwybodaeth am bwy?	Lle caiff ei storio? Diogelwch?	A gaiff y data ei rannu? Gyda phwy? Sut?	Am ba mor hir caiff y data ei gadw?
Sesiynau Rhoi Cynnig Arni	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad (KPI's) - Enw / Dyddiad Geni / Cyfeiriad / Manylion Cyswllt / Gweithgaredd / Anabledd	Mae gennym ni eich caniatâd	Y sawl sy'n cymryd rhan (gan gynnwys rhiant / gwarchodwr)	Taenlen Microsoft Excel wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Ffigyrau yn unig	Cyhyd â bod angen
Sesiynau Datblygu	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad - Enw / Dyddiad Geni / Cyfeiriad / Manylion Cyswllt / Gweithgaredd / Anabledd	Fel yr uchod	Y sawl sy'n cymryd rhan (gan gynnwys rhiant / gwarchodwr)	Taenlen Microsoft Excel wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Ffigyrau yn unig	Fel yr uchod

Polisi Preifatrwydd | 2018

Gŵyl AAA (SEN)	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Craidd - Enw / Anabledd	Fel yr uchod	Y sawl sy'n cymryd rhan (gan gynnwys rhiant / gwarchodwr)	Heb storio unrhyw fanylion, dim ond ffigyrau	Ffigyrau yn unig	Fel yr uchod
Rhaglen Llysgennad	- Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad	Fel yr uchod	Llysgennad		Astudiaethau Achos	Fel yr uchod

Cofrestr Gwybodaeth Asedau - Y Bartneriaeth Awyr Agored - RHAGLEN LLWYBRAU AT WAITH

Categori Gwybodaeth / Swyddogaeth Busnes	At ba ddiben caiff ei brosesu? Pa fath o ddata?	Sail gyfreithlon dros brosesu	Gwybodaeth am bwy?	Lle caiff ei storio? Diogelwch?	A gaiff y data ei rannu? Gyda phwy? Sut?	Am ba mor hir caiff y data ei gadw
Tai Gogledd Cymru (NWA) / GYM	Targedau / Prif Ddangosyddion Perfformiad Enwau Manylion cyswllt Cyfeiriad Oed Rhyw Anabledd Meddygol	Fel yr uchod ac fel sydd ei angen	Unigolion sy'n rhan ohono	Cwpwrdd dan glo. Ar-lein (dropbox)	(GYM) mewn adroddiad blynyddol; Oed Rhyw Anabledd Sir	Tan ddiwedd y prosiect yn 2021

Cynnwys Pawb	Profi cymhwyster i'r corff ariannu. Enwau Manylion cyswllt Cyfeiriad, Oed, Rhyw, Anabledd Meddygol Statws gwaith Sganiau adnabod	Fel yr uchod ac fel sydd ei angen (Tystiolaeth cymryd rhan. Prawf cymhwyster)	Unigolion sy'n rhan ohono	Cwpwrdd dan glo. Ar-lein - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn darparu cronfa ddata ar-lein i'r sawl sy'n cymryd rhan sydd wedi'i diogelu gyda chyfrinair.	Gyda'r corff nawdd WCVA. Ar-lein.	Yn unol â rheoliadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) / Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2022
--------------	---	---	---------------------------	---	--------------------------------------	--

Cofrestr Gwybodaeth Asedau - Y Bartneriaeth Awyr Agored - RHAGLEN ANTUR I FERCHED

Categori Gwybodaeth / Swyddogaeth Busnes	At ba ddiben caiff ei brosesu? Pa fath o ddata?	Sail gyfreithlon dros brosesu	Gwybodaeth am bwy?	Lle caiff ei storio? Diogelwch?	A gaiff y data ei rannu? Gyda phwy? Sut?	Am ba mor hir caiff y data ei gadw
Sesiynau Rhoi Cynnig Arni	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad	Mae gennym ni eich caniatâd	Y sawl sy'n cymryd rhan	Taenlen Microsoft Excel wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Ffigyrau yn unig	Cyhyd â bod angen

	- Enw / Dyddiad Geni / Cyfeiriad / Manylion Cyswllt / Gweithgaredd					
Sesiynau Datblygu	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad - Enw / Dyddiad Geni / Cyfeiriad / Manylion Cyswllt / Gweithgaredd	Fel yr uchod	Y sawl sy'n cymryd rhan	Mynediad Microsoft Taenlen Microsoft Excel wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Ffigyrau yn unig	Cyhyd â bod angen
Hyfforddiant a Mentora	- Cyfleoedd yn y dyfodol - Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad - Enw / Dyddiad Geni / Cyfeiriad / Manylion Cyswllt / Hyfforddiant	Fel yr uchod	Y sawl sy'n cymryd rhan	Mynediad Microsoft Taenlen Microsoft Excel wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Ffigyrau yn unig	Cyhyd â bod angen
Rhaglen Llysgennad	- Grant Prif Ddangosyddion Perfformiad	Fel yr uchod	Llysgennad	Dogfen Microsoft Word wedi'i diogelu gyda chyfrinair	Na	Cyhyd â bod angen

Cofrestr Gwybodaeth Asedau - Y Bartneriaeth Awyr Agored - RHAGLEN GWIRFODDOLI						
Categori Gwybodaeth / Swyddogaeth Busnes	At ba ddiben caiff ei brosesu? Pa fath o ddata?	Sail gyfreithlon dros brosesu	Gwybodaeth am bwy?	Lle caiff ei storio? Diogelwch?	A gaiff y data ei rannu? Gyda phwy? Sut?	Am ba mor hir caiff y data ei gadw
Gwirfoddolwyr	Manylion personol a hanes gwirfoddoli Yn unol ag amodau/adroddiadau grant	Mae gennym ni eich caniatâd	Gwirfoddolwyr unigol	Ar bapur ar hyn o bryd mewn storfa dan glo / Yn y dyfodol - ar-lein	Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda chyrff grantiau (e.e. Prif Ddangosyddion Perfformiad)	4 mlynedd
Ceidwaid Ifanc	Manylion personol, cyswllt, hanes meddygol - manylion cyswllt mewn argyfwng	Fel yr uchod	Pobl ifanc	Ar hyn o bryd ar bapur mewn drôr dan glo.	Dim ond gyda Phartneriaid y prosiect	1 flwyddyn
Clybiau	Manylion personol a chyfeiriadau - Perthynas gyda'r clwb a chyflenwad gwybodaeth	Fel yr uchod	Person cyswllt y clwb	Ar bapur ar hyn o bryd mewn storfa dan glo / Yn y dyfodol - ar-lein	Na	4 mlynedd

Polisi Preifatrwydd | 2018

Mentoriaid	Manylion personol, cymwysterau a manylion yswiriant	Fel yr uchod	Busnesau a masnachwyr unigol	Ar-lein (dropbox)	Na	4 mlynedd
------------	---	--------------	------------------------------	-------------------	----	-----------

EICH HAWLIAU

Fe allwch chi arfer unrhyw un o'r hawliau canlynol drwy ysgrifennu atom ni ar info@outdoorpartnership.co.uk neu drwy fewngofnodi i'ch cyfrif.

Eich hawliau o ran eich gwybodaeth bersonol ydy:

- Mae gennych chi hawl gwneud cais i gael mynediad at yr wybodaeth bersonol sydd gennym ni ar eich cyfer drwy wneud "cais mynediad gan ddeilydd";
- Os ydych chi'n credu bod unrhyw ran o'ch gwybodaeth bersonol yn anghywir neu yn anghyflawn, mae gennych chi hawl gofyn inni gywiro neu gwblhau eich gwybodaeth bersonol;
- Mae gennych chi hawl gofyn ein bod yn cyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol; ac
- Os hoffech chi inni ddileu eich gwybodaeth bersonol, mae gennych chi hawl gwneud cais inni wneud hynny. Does dim rhaid inni gydymffurfio gyda'r cais hwn os ydych chi wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant, fodd bynnag, efallai y byddwn ni'n cytuno i newid ychydig o'ch manylion personol yn ddiennw.

Caiff unrhyw gais bydd Y Bartneriaeth Awyr Agored yn ei dderbyn ei ystyried dan ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol a bydd angen inni wirio pwy ydych chi cyn gwneud unrhyw beth. Os byddwch chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych chi hawl cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.org.uk

DIOGELWCH DATA

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ymrwymo i gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac mae gennym ni bolisiâu diogelwch a mesuriadau technegol mewn lle er mwyn helpu i ddiogelu eich gwybodaeth (er enghraifft, systemau TG sydd wedi'u diogelu gyda chyfrinair).

Byddwn ni'n rhoi dulliau gweithredu a thechnolegau mewn lle er mwyn cynnal diogelwch pob data personol o pan gaiff ei gasglu hyd at pan gaiff ei ddinistrio.

Mae gorfodaeth ar ein holl weithwyr, a gweithwyr unrhyw isgontractwyr sy'n prosesu data ar ein rhan, i gydymffurfio gyda'n dulliau gweithredu diogelwch data llym.

CWCIS

Mae Cwcis yn ffeiliau testun bach gaiff eu storio ar eich dyfais pan fyddwch chi'n mynd ar y rhan fwyaf o wefannau ar y we neu wrth agor rhai e-byst. Ymysg pethau eraill, mae cwcis yn caniatáu gwefan i adnabod eich dyfais a chofio os ydych chi wedi bod ar y wefan o'r blaen. Rydym ni'n defnyddio'r term cwci i gyfeirio at gwcis a thechnolegau sy'n gwneud pethau tebyg i gwcis (er enghraifft, tagiau, picseli, nodau gwe, etc). Gall y wefan gychwynnol ddarllen cwcis ar bob ymweliad a chan unrhyw wefan arall sy'n adnabod y cwci.

Rydym ni'n defnyddio'r rhain er mwyn gwella profiad ein hymwelwyr ar ein gwefan, storio data dros dro a deall adrannau'r wefan y mae ymwelwyr yn eu hymweld.

Rydym ni'n defnyddio cwcis er mwyn gwneud ein gwefan yn haws i'w defnyddio ac er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth o wybodaeth a natur ymarferol ichi.

Caiff cwcis hefyd eu defnyddio er mwyn ein helpu ni i gasglu ystadegau dienw ar ddefnydd ein gwefan yn ogystal â'n darparu ni gyda gwybodaeth am sut caiff y wefan ei defnyddio fel bod modd inni sicrhau ei bod bob tro yn ddiweddar, yn berthnasol a heb wallau.

Trwy ddefnyddio ein gwefan, rydych chi'n cytuno i'n defnydd o gwcis, gan gynnwys gosod a darllen cwcis ar eich dyfais. Fe allwch chi ddewis cyfyngu ar neu rwystro cwcis trwy osodiadau eich porwr ar unrhyw adeg. Am fwy o wybodaeth am sut mae gwneud hyn, ac am gwcis yn gyffredinol, ewch i www.allaboutcookies.org.

Er bod rhai cwcis yn cael eu gosod yn syth pan fyddwch chi'n ymweld â gwefan, fe allwch chi eu tynnu drwy osodiadau eich porwr - ond efallai bydd hyn yn cael effaith ar natur ymarferol neu berfformiad y wefan.

Dylech chi wybod hefyd y gall trydydd barti (gan gynnwys, er enghraifft, rhwydweithiau hysbysebu a darparwyr gwasanaethau allanol fel gwasanaethau dadansoddi gwefannau) hefyd ddefnyddio cwcis, a does gennym ni ddim rheolaeth dros hynny.

YMGEISWYR SWYDDI (GYDA THÂL)

Y Bartneriaeth Awyr Agored ydy'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth byddwch chi'n ei darparu yn ystod y broses, oni bai caiff ei nodi'n wahanol. Os oes gennych chi unrhyw ymholiad ynglŷn â'r broses neu sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth, cysylltwch gyda ni ar info@outdoorpartnership.co.uk neu ysgrifennwch at: Y Prif Swyddog Gweithredol, Y Bartneriaeth Awyr Agored, Bwthyn Carnedd, Plas y Brenin, Capel Curig, Conwy, LL24 0ET.

Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth byddwch chi'n ei darparu?

Caiff yr holl wybodaeth byddwch chi'n ei darparu yn ystod y broses ei defnyddio dim ond at ddibenion prosesu eich cais, neu er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol neu reoli lle bo'n briodol.

Ni fyddwn ni'n rhannu unrhyw ran o'r wybodaeth bersonol byddwch chi'n ei darparu yn ystod y broses recriwtio gydag unrhyw drydydd barti at ddibenion marchnata nac yn storio unrhyw ran o'ch gwybodaeth y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Caiff yr wybodaeth byddwch chi'n ei darparu ei chadw yn ddiogel gennym ni a/neu ein prosesyddion data boed yr wybodaeth ar fformat electronig neu ar bapur a bydd yn unol â rheolau'r GDPR.

Byddwn ni'n defnyddio'r manylion cyswllt byddwch chi'n eu darparu i gysylltu gyda chi er mwyn symud eich cais ymlaen. Byddwn ni'n defnyddio'r holl wybodaeth arall byddwch chi'n ei darparu er mwyn asesu pa mor addas ydych chi ar gyfer y swydd byddwch chi wedi ymgeisio amdani.

Pa wybodaeth fyddwn ni'n gofyn amdani, a pham?

Dydyn ni ddim yn casglu mwy o wybodaeth na'r hyn sydd ei angen er mwyn cyflawn ein dibenion penodol a ni fyddwn ni'n ei chadw am gyfnod hirach na beth sydd ei angen.

Caiff yr wybodaeth byddwn ni'n gofyn amdani ei defnyddio i asesu pa mor addas ydych chi ar gyfer y gwaith. Does dim rhaid ichi ddarparu'r hyn byddwn ni'n gofyn amdano, ond efallai gall hyn gael effaith ar eich cais os na fyddwch chi.

Ymgeisio

Rydym ni'n gofyn am eich manylion personol gan gynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt. Byddwn ni hefyd yn gofyn am eich profiad blaenorol, addysg, canolwyr ac atebion i gwestiynau sy'n berthnasol i'r swydd rydych chi wedi ymgeisio amdani. Bydd gan ein tîm recriwtio fynediad at yr holl wybodaeth hon.

Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chyfleoedd cyfartal. Tydy hon ddim yn wybodaeth orfodol - os na fyddwch chi'n ei darparu, ni fydd hyn yn cael effaith ar eich cais. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael i unrhyw aelod o staff y tu allan i'n tîm recriwtio mewn modd all eich adnabod chi. Caiff unrhyw wybodaeth byddwch chi'n ei darparu ei defnyddio dim ond er mwyn creu a monitro ystadegau cyfleoedd cyfartal.

Llunio rhestr fer

Bydd ein Prif Swyddog Gweithredol, aelod o staff penodol ac Ymddiriedolwr yn llunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliadau. Ni fyddan nhw'n cael gwybod eich enw, manylion cyswllt nac eich gwybodaeth cyfleoedd cyfartal os byddwch chi wedi'i darparu.

Asesiadau

Efallai y byddwn ni'n gofyn ichi gymryd rhan mewn diwrnodau asesu; cwblhau profion neu holiaduron ar broffil personoliaeth galwedigaethol; a/neu fynd am gyfweiliad - neu gyfuniad o'r rhain. Caiff gwybodaeth ei rhannu gennych chi a gennym ni. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cwblhau prawf ysgrifenedig neu efallai byddwn ni'n cymryd nodiadau cyfweiliad. Caiff yr wybodaeth hon ei chadw gan Y Bartneriaeth Awyr Agored.

Os byddwch chi'n aflwyddiannus yn dilyn asesiad ar gyfer y swydd rydych chi wedi ymgeisio amdani, efallai y byddwn ni'n gofyn a hoffech chi inni gadw eich manylion yn ein cronfa dalent am gyfnod o chwe mis. Os byddwch chi'n fodlon

gyda hyn, byddwn ni'n cysylltu gyda chi o flaen llaw os bydd unrhyw swyddi eraill addas yn codi.

Cynnig amodol

Os byddwn ni'n gwneud cynnig amodol am waith byddwn ni'n gofyn ichi am wybodaeth fel bod modd inni gynnal profion cyn dechrau gweithio. Mae'n rhaid ichi gwblhau'r profion cyn dechrau gweithio yn llwyddiannus er mwyn symud ymlaen at gynnig terfynol. Mae'n rhaid inni gadarnhau hunaniaeth ein staff, eu hawl i weithio yn y DU a cheisio sicrwydd o ran eu ffyddlondeb, gonestrwydd a dibynadwyedd.

Felly, bydd gofyn ichi ddarparu:

Tystiolaeth o bwy ydych chi - byddwn ni'n gofyn ichi fynd i'n swyddfa gyda'ch dogfennau gwreiddiol, byddwn ni'n gwneud copi ohonyn nhw.

Tystiolaeth o'ch cymwysterau - byddwn ni'n gofyn ichi fynd i'n swyddfa gyda'ch dogfennau gwreiddiol, byddwn ni'n gwneud copi ohonyn nhw.

Byddwn ni'n gofyn ichi gwblhau datganiad cofnod troseddol er mwyn datgan unrhyw euogfarnau anhreuliedig.

Byddwn ni'n cysylltu gyda'ch canolwyr, gan ddefnyddio'r wybodaeth byddwch chi'n ei darparu yn eich cais, yn uniongyrchol er mwyn cael geirdaon.

Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi gwblhau holiadur ynglŷn â'ch iechyd. Mae hyn er mwyn cadarnhau eich ffitrwydd i weithio. Caiff hyn ei wneud drwy brosesydd data (gwelwch isod).

Os byddwn ni'n gwneud cynnig terfynol, byddwn ni hefyd yn gofyn ichi am y canlynol:

Manylion banc - er mwyn prosesu taliadau cyflog.

Manylion cyswllt mewn argyfwng - er mwyn inni wybod pwy i gysylltu â nhw os byddwch chi mewn unrhyw argyfwng yn eich gwaith.

Am ba mor hir gaiff yr wybodaeth ei chadw?

Os byddwch chi'n llwyddiannus, caiff yr wybodaeth byddwch chi'n ei darparu yn ystod y broses ymgeisio ei chadw gennym ni fel rhan o'ch ffeil gweithiwr yn ystod cyfnod eich cyflogadwyedd ac yna am chwe blynedd ar ôl ichi roi'r gorau i weithio i ni. Mae hyn yn cynnwys eich datganiad cofnod troseddol, ffitrwydd i weithio, cofnod o unrhyw wiriadau diogelwch a geirdaon.

Os byddwch chi'n aflwyddiannus ar unrhyw gam o'r proses, caiff yr wybodaeth byddwch chi wedi'i darparu hyd at y pwynt hwnnw ei chadw am chwe mis ar ôl cau'r ymgyrch.

Caiff gwybodaeth gaiff ei chasglu trwy gydol y broses asesu, er enghraifft, nodiadau cyfweld, ei chadw gennym ni am chwe mis ar ôl cau'r ymgyrch.

Caiff gwybodaeth cyfleoedd cyfartal ei chadw am chwe mis ar ôl cau'r ymgyrch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio.

SUT ALLWCH CHI DDIWEDDARU EICH GWYBODAETH

Mae cywirdeb eich gwybodaeth yn bwysig inni. Rydym ni'n gweithio ar ffyrdd o'i gwneud hi'n haws ichi adolygu a chywiro'r wybodaeth sydd gennym ni ar eich cyfer. Mae ein gwefan newydd yn gadael ichi wneud newidiadau i'ch manylion personol trwy fewngofnodi i'n hadran Gwirfoddolwyr ar y wefan. Yn y cyfamser, os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad e-bost, neu os bydd unrhyw wybodaeth arall sydd gennym ni ar eich cyfer yn anghywir neu yn hen, anfonwch e-bost atom ni: info@outdoorpartnership.co.uk.

CWYNION

Os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn ynglŷn â sut rydym ni wedi trin eich gwybodaeth bersonol, fe allwch chi gysylltu gyda'n Swyddog Diogelu Data drwy ffonio 01690 720106. Rydym ni'n gobeithio bod modd inni fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd gennych chi.

Dyddiad adolygiad diwethaf:

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddarau diwethaf ar y 24ain o Fai 2018 yn unol â rheoliadau'r GDPR Mai 2018.